CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 11eg o Fawrth 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson.
   Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Dylan Jarman a Cyng Miriam Webb.

2. Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda, a nododd Cyng Robert Jones ddiddordeb yn y cais gan Glybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd.
   Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoeddar fater ar yr Agenda.
3. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Chwefror** – yn 4a, nodwyd mai y Cyng Elwyn Evans ac Emrys Thompson (nid Cyng Robert Jones) oedd yn ymweld a safeoedd Heol Lanegryn. Gyda cywiriad yma, cadarnhawyd y cofnodion o'r 12fed Chwefror ar gynnig Cyng Robert Jones, a'i eilio gan Cyng. Gwynedd Roberts.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau** – cyfeiriwyd at y gwrych a oedd yn gor-dyfu ar Heol Llanegryn, a bod y cyfan wedi neud ag eithrio rhif 6. Byddai'r Clerc yn danfon ymhellach.Yng nghyswllt llwybrau, cadarnhawyd fod y brobelm gyda llwybr heibio Gamallt wedi ei ddatrys, a diolchwyd I Richard Jones Gesail am ei gydweithrediad efo hyn. Yng nghyswllt y diffyg gyda llwybr Meriafel, roedd y Clerc wedi siarad gyda Gwyn Evans o Adran llwybrau Cyngor Gwynedd, ac roedd hyn mewn llaw.

   Yn y cyswllt hyn, nododd y Clerc e-bost gan Gwyn Evans yn son am ganllawiau i ddefnyddio map llwybrau sydd ar wefan Cyngor Gwynedd, a dywedodd y byddai yn ei ddosbarthu I bawb o'r Cynghorwyr.

b) **Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae** – adroddwyd yr ymateb, a'r cadarnhad gan y contractor Owain Williams ei fod yn ddiolchgar o'r gwaith am dymor 2024.

c) **Rheilffordd Talyllyn** – yng nghyswllt y syniad o gael wagen lechi ar gyrion y pentref, nodwyd ymateb Stangate Restorations & Replicas a oedd wedi ei ddanfon I Liz Porrett, Rheolwarig Rheilffordd Talyllyn, a oedd yn cynnwys opsiynau ac amcangyfrifon. Roedd y Clerc wedi ei ddanfon I bawb ymlaenllaw. Penderfynwyd ei ddanfon i Anna Lewis o Gyngor Gwynedd yn y lle cyntaf I weld a oes arian ar gael, a gwelwyd y gellir awgrymu yr ail-opsiwn. Nodwyd fod y Cyngor wedi neilltuo arian ar gyfer hyn.

   **Safle treftadaeth** – yng nghyswllt yr angen I gael taflenni yn y saesneg, a'r cytundeb y byddai y Cyngor Cymuned yn hapus I Reilffordd Talyllyn eu hail-brintio, nodwyd lythyr caredig o ddiolch gan Jayne Myfanwy Mills.

d) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, a byddai hyn ar yr agenda y tro nesaf.

5. **Materion Cynllunio**

   Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

a) Anfonebau

- Ar gynnig Cyng Robert Jones a'I eilio gan Gwynedd Roberts, cytunwyd I dalu cost **EW Owen a'i Chwmni** am waith PAYE ayyb am swm o £120.
- Ar gynnig Cyng Eleri Puw a'I eilio gan Robert Jones penderfynwyd talu anfoneb **LG Painting and Decorating** am £760 am waith gyda ail-baentio offer y cae chwarae. Darllenwyd e-bost Luke oedd yn egluro fod yna un diwrnod o waith eto ar ol i'r tywydd wella.
- **Zurich Municipal** – yswiriant y Cyngor 2024-25 – roedd y swm o £344.55 yn ddyledus. Penderfynwyd gadael hwn tan y cyfarfod nesaf, fel bod cyfle i bob Cynghorydd gael golwg ar yr union 'cover' sydd gan y Cyngor, a bod y taliad yn mynd i flwyddyn 2024-25.

b) **Cydnabyddiaeth y Clerc am 4ydd chwarter, yngyd a chostau am y flwyddyn fel y cytunwyd** – ar gynnig Cyng Robert Jones a'I eilio gan Elwyn Evans, cytunwyd I dalu cydnabyddiaeth £400.01, a chostau o £291. Roedd y costau gyfnod o 7 mis ers dechrau y swydd yn Medi 2023 (cyfanswm blynyddol o £500)

c) Ceisiadau am arian;

- **Marie Curie** – ers y cyfarfod diwethaf, gwnaed cais am fantolen. Ni chafwyd ymateb, felly penderfynwyd I adael y mater.
- **Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd** – nodwyd fod angen y fantolen I law cyn ystyried y cais, a oedd wedi ei danfon. Byddai hwn felly ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

d) Cadarnhau penodiad Archwilydd Mewnol ar gyfer 2023-24 – penderfynwyd penodi Uned Archwilio Cyngor Gwynedd unwaith eto, a byddai'r Clerc yn danfon llythyr i gadarnhau.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

   Ymddiheurodd y Cyng Beth Lawton nad oedd hi wedi gallu bod yn bresennol y tro diwethaf. Mynegwyd ein dymuniadau gorau iddi yn y llawdriniaeth yr oedd hi yn ei wynebu yn y dyfodol agos.

   Nodwyd lansiad Apel 75 Rheilffordd Talyllyn, sef codi arian ar gyfer y Rheilffordd I'r 75 mlynedd nesaf.

8.**.Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan Cyng Elwyn Evans. Amlinellodd waith y Pwyllgor Polisi yr oedd wedi mynychu dros zoom, a'r ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru.

Soniodd am arian mewn cyfrifon 'dormant funds' a'r penderfyniad sut I ddefnyddio yr arian; prosiect argyfwng costau byw; y cyswllt gyda'r WLGA, pryder am gyfyngiadau ariannol Cyngorau Sir, perthynas U LL C gyda Chynghorau Sir, a'r syniad o uno Cynghorau Cymuned.

Diolchwyd yn fawr iawn i Elwyn am ei waith

**9.Gohebiaeth.**

a) Materion mynwent Eglwys Llanfihangel y Pennant;

- Nodwyd e-bost gan Helen Edwards ynglyn a claddu llwch ei rhieni. Roedd ei thaid a'I nain, sef John Maurice ac Elizabeth Ann Edwards wedi eu claddu yno. Byddai'r Clerc yn ymateb gyda rhestr ffioedd Cyngor Gwynedd, cael mwy o wybodaeth, ac yn awgrymu cyfarfod yn y fynwent.
- Nodwyd derbyn £110 gan I B Williams a'i Fab ynglyn a beddfaen I'r diweddar Mary Jones, Ty'n y Bryn.
- Nodwyd derbyn £121 gan I B Williams a'i Fab ynglyn a beddfaen I'r diweddar John Morgan Lewis a Richard Norton Lewis.
- Cadarnhawyd nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am fynwent Abertrinant.

b) Roedd e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a chynllun Rhannu Cartref y Cyngor, a'r angen I ledu buddion y cynllun.

c) Nodwyd adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol cynabyddiaeth ariannol Cynghorwyr.

d) Roedd llythyr gan Abergynolwyn Annual Duck Race yn gofyn caniatad defnydd y Cae Chwarae, ar y 5ed o Fai 2024. Cadarnhawyd dim problem, ond na ddylai cwn fod ar y cae.

10. **Unrhyw fater arall**

- Cadarnhawyd rhestr asedau sefydlog y Cyngor drwy fynd drwy pob eitem, sef cyfanswm o £19114. Yn ychwanegol I hyn oedd llwybr rhwng 1 Maesmeillion a'r Riverside Café am £1 a oedd wedi ei gymryd trosodd. Gwelwyd y dylid trafod eto yn y cyfarfod nesaf, yn arbennig mewn cyswllt gyda'r yswiriant.
- Gofynnwyd i bawb lenwi ffurflen cofrestr buddiant Cynghorwyr 2024
- Roedd bin y cae chwarae yn llawn, ac angen ei drafod y tro nesaf.
- Roedd angen trafod y llwybr o giat Heol y Dwr i fynny at y fainc yn y cae chwarae, a'i roi ar yr agenda y tro nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN NOS LUN 8fed o Ebrill 2024 , 7.00y.h.**

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 11th of March 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Emrys Thompson.
Apologies were received from Cllr Dylan Jarman and Cllr Miriam Webb.

2. Expressions of interest were invited for issues on the agenda, and Cllr Robert Jones indicated an interest in the application from Meirionnydd Young Farmers' Clubs.
It was noted that there was no request to have presentations from members of the issue published on the Agenda.
3. The minutes of the meeting held on the 12th of February - in 4a, it was noted that Cllr Elwyn Evans and Emrys Thompson (not Cllr Robert Jones) visited the Llanegryn Road to see the position. With this correction, the minutes from 12th February were confirmed on the motion of Cllr Robert Jones, seconded by Cllr. Gwynedd Roberts.
4. Matters arising
a) Highways/paths issues - reference was made to the hedge that was overgrowing on Llanegryn Road, and that it had all been done with the exception of number 6. The Clerk would write further. In relation to paths, it was confirmed that the problem with the path past Gamallt has been resolved, and Richard Jones Gesail was thanked for his cooperation with this. In relation to the matter with the Meriafel path, the Clerk had spoken to Gwyn Evans from Gwynedd Council's Paths Department, and this was in hand.

In this regard, the Clerk noted an email from Gwyn Evans about guidelines for using the route map that is on the Gwynedd Council website, and said that he would distribute it to all of the Councillors.

b) Cutting the grass of cemeteries and the playing field - the response was reported, and the confirmation from the contractor Owain Williams that he was grateful for the work for the 2024 season.

c) Talyllyn Railway - in relation to the idea of having a slate wagon on the outskirts of the village, Stangate Restorations & Replicas' response was noted which had been delivered to Liz Porrett, Talyllyn Railway Manager, which included options and estimates. The Clerk had sent it to everyone in advance. It was decided to send it to Anna Lewis from Gwynedd Council in the first place to see if there is money available, and it was seen that the second option can be suggested. It was noted that the Council had set aside money for this.

Heritage site - in relation to the need to have leaflets in English, and the agreement that the Community Council would be happy for the Talyllyn Railway to reprint them, a kind letter of thanks from Jayne Myfanwy Mills was noted.

d) A tree damaging a wall - there was no update, and this would be on the agenda next time.

5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

6. Finance Matters.

a) Invoices

• On the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Gwynedd Roberts, it was agreed to pay the cost of EW Owen and his Company for PAYE work etc for a sum of £120.

• On the proposal of Cllr Eleri Puw and seconded by Robert Jones it was decided to pay LG Painting and Decorating's invoice for £760 for work with repainting the playground

equipment. Luke's email was read which explained that there was one more day of work after the weather had improved.

• Zurich Municipal – Council insurance 2024-25 – the sum of £344.55 was due. It was decided to leave this until the next meeting, so that each Councillor has the opportunity to have a look at the exact 'cover' that the Council has, and that the payment goes to the year 2024-25.

b) The Clerk's remuneration for the 4th quarter, together with costs for the year as agreed - on the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Elwyn Evans, it was agreed to pay a remuneration of £400.01, and costs of £291. The costs were for a period of 7 months from the start of the post in September 2023 (annual total of £500)

c) Requests for money;

• Marie Curie – since the last meeting, a request for a balance sheet was made. There was no response, so it was decided to leave the mater.

• Meirionnydd Young Farmers Clubs - it was noted that the balance sheet was needed before considering the application, which had been received. This would therefore be on the agenda at the next meeting.

d) Confirm the appointment of an Internal Auditor for 2023-24 - it was decided to appoint Gwynedd Council's Audit Unit once again, and the Clerk would send a letter to confirm.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton apologized for not being able to attend last time. We expressed our best wishes to her in the surgery she was facing in the near future.

The launch of the Talyllyn Railway 75 Appeal was noted, which is to raise money for the I Railway for the next 75 years.

8..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

A comprehensive report was given by Cllr Elwyn Evans. He outlined the work of the Policy Committee he had attended via zoom, and the consultation with the Welsh Government.

He talked about money in 'dormant funds' accounts and the decision how to use the money; cost of living crisis project; the link with the WLGA, concern about the financial constraints of County Councils, one Voice Wales' relationship with County Councils, and the idea of merging Community Councils.

Elwyn was thanked very much for his work

9. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant Church cemetery;

• An email from Helen Edwards regarding the burial of her parents' ashes was noted. Her grandfather and grandmother, John Maurice and Elizabeth Ann Edwards, were buried there. The Clerk would respond with Gwynedd Council's fee list, get more information, and suggest a meeting at the cemetery.

• Noted the receipt of £110 from I B Williams and his Son regarding a tombstone for the late Mary Jones, Ty'n y Bryn.

• Noted the receipt of £121 from I B Williams and his Son regarding a tombstone for the late John Morgan Lewis and Richard Norton Lewis.

• It was confirmed that the Council was not responsible for Abertrinant cemetery.

b) There was an email from Gwynedd Council regarding the Council's Home Sharing scheme, and the need to spread the benefits of the scheme.

c) The Annual report of the Independent Panel of financial remuneration for Councilors was noted.

d) There was a letter from Abergynolwyn Annual Duck Race requesting permission to use the Playground, on the 5th of May 2024. It was confirmed no problem, but that dogs should not be on the field.

10. Any other matter

• The Council's list of fixed assets was confirmed by going through each item, totaling £19114. In addition to this there was a route between 1 Maesmeillion and the Riverside

Café for £1 which had been taken over. It was seen that it should be discussed again at the next meeting, especially in connection with the insurance.

• Everyone was asked to fill in the 2024 Councillors' interest register form

• The playground bin was full, and needs to be discussed next time.

• It was necessary to discuss the route from the Heol y Dwr gate up to the bench in the playing field, and put it on the agenda next time.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN MONDAY 8th April 2024, 7.00 p.m.

Arwyddwyd/Signed…………………………………………………..CADEIRYDD/ CHAIRMAN